***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Ceisiadau i ddynodi cymwysterau**

**11.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys—

(a) pan fo person, cyn 21 Medi 2015, wedi cyflwyno ffurf ar gymhwyster perthnasol i Weinidogion Cymru, y mae'r person wedi ei gydnabod mewn cysylltiad â hi o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997, i gael ei hachredu o dan adran 30(1)(h) o'r Ddeddf honno ac nad yw wedi tynnu'r cyflwyno yn ôl,

(b) pan nododd y person, wrth gyflwyno'r ffurf ar gymhwyster, cyn 21 Medi 2015, i gael ei hachredu, ddymuniad i'r ffurf ar gymhwyster gael ei chyllido yng Nghymru, ac

(c) pan na fo Gweinidogion Cymru, cyn 21 Medi 2015, wedi penderfynu pa un ai i achredu'r ffurf ar gymhwyster ai peidio.

(2) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae cyflwyno'r ffurf ar gymhwyster i gael ei drin fel cais gan y person o dan adran 29(2) o'r Ddeddf i Gymwysterau Cymru i'r ffurf ar gymhwyster gael ei dynodi o dan yr adran honno.